Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymuned Bryngwran

Bryngwran
Caergybi
LL65 3PP

Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gymuned Bryngwran

| | |
|---|---|
| Enw’r darparwr | Ysgol Gymuned Bryngwran |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | * |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 43 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 34 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | * |
| Canran y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 22.9%) | 9.5% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 11.1%) | 17.6% |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 79.4% |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi’r pennaeth | 01/09/2023 |

| | |
|---|---|
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 16/04/2018 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 10/02/2025 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae Ysgol Gymuned Bryngwran yn gymuned ddysgu gynhwysol sy’n sicrhau bod lles, gofal ac hapusrwydd pob disgybl yn rhan annatod o ethos Cymreig yr ysgol.

Mae balchder cynhenid disgyblion tuag at eu hysgol yn gwbl amlwg, gydag ymdeimlad cryf o berthyn i un teulu yn elfen nodedig o gymuned yr ysgol. Un o rinweddau amlycaf yr ysgol yw’r modd mae staff yn meithrin ac yn cynnal medrau personol a chymdeithasol disgyblion trwy amryfal drefniadau amserol a rhaglenni cefnogi blaengar. Mae perthnasoedd gwaith cefnogol rhwng disgyblion a staff yn sicrhau eu bod yn gwybod at bwy i droi am gymorth a chefnogaeth.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cyson mewn ystod dda o fedrau o’u mannau cychwyn, gan wneud cynnydd cadarn yn eu medrau darllen a digidol erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol. Mae’r profiadau creadigol ar gyfer meithrin medrau artistig a mynegiannol disgyblion yn nodwedd gref o’r ddarpariaeth.

Darperir cwricwlwm creadigol, eang a chytbwys sy’n adeiladu’n gydlynus ar ddealltwriaeth y disgyblion o’u medrau yn effeithiol. Mae athrawon yn fodelau iaith dylanwadol ac maent yn cynllunio ystod dda o brofiadau dysgu ystyrlon a chyfoethog sy’n adlewyrchu natur a chyd-destun lleol yr ysgol yn llwyddiannus. Caiff disgyblion gyfleoedd cyson i awgrymu syniadau fel rhan o’r gweithgareddau dysgu. Er hyn, nid yw athrawon yn darparu profiadau dysgu sy’n herio’r disgyblion mwyaf abl yn ddigon cyson.

Mae gan staff adnabyddiaeth dda o’r holl ddisgyblion ac maent yn diwallu anghenion gwahanol grwpiau o ddisgyblion yn bwrpasol. Defnyddiant ystod briodol o ddulliau holi yn effeithiol i gefnogi dealltwriaeth disgyblion yn ogystal â llywio cyfeiriad eu dysgu. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn darparu adborth digon effeithiol i ddisgyblion i’w cefnogi i adnabod y camau nesaf yn eu dysgu.

Mae aelodau’r corff llywodraethol yn cefnogi’r pennaeth a staff yn briodol. Mae gwerthusiadau rheolaidd gan y pennaeth a'r corff llywodraethol yn creu darlun priodol o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i’w gwella.

Mae gan staff berthynas gynhyrchiol â’r ysgolion cynradd ac uwchradd cyfagos, sy’n hwyluso trefniadau pontio effeithiol. Mae’r pennaeth a’r staff yn meithrin partneriaethau rhagweithiol â’r rhieni a’r gymuned leol sy’n cyfrannu’n sylweddol at yr ethos croesawgar a theuluol.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella

A1. Sicrhau bod gweithgareddau dysgu yn herio’r disgyblion mwy abl yn gyson

A2. Sicrhau bod adborth athrawon yn cefnogi disgyblion i adnabod y camau nesaf yn eu dysgu

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif arfarniad

Mae’r pennaeth yn arweinydd angerddol sydd â gweledigaeth glir ar gyfer yr ysgol sy’n seiliedig ar sicrhau bod pob disgybl yn cael profiadau creadigol a chyfoethog mewn amgylchedd cynhwysol a Chymreig. Llwydda’r pennaeth i arddel y weledigaeth hon gyda disgyblion, staff, rhieni a’r gymuned ehangach yn llwyddiannus. Mae hyn yn meithrin ymdeimlad cryf o berthyn i un teulu mawr sy’n cydweithio’n fwriadus i ddatblygu cymuned ddysgu gynhwysol sy’n ‘Gweithio’n gytûn i gyflawni gwelliant.’

Mae’r staff yn ymroddgar ac yn hyrwyddo gwerthoedd ac ymddygiad proffesiynol sy’n cyfrannu’n gadarn at wella lles a datblygu medrau disgyblion. Maent yn gosod pwyslais cryf ar hybu ymddygiad cadarnhaol a meithrin parch disgyblion at ei gilydd yn llwyddiannus. Caiff hyn ei amlygu yn ymddygiad da a chwrteisi naturiol bron bob disgybl.

Un o rinweddau amlycaf yr ysgol yw’r sylw cynyddol a roddir yn gyson i gefnogi lles personol a chymdeithasol disgyblion. O oedran cynnar, darperir cyfleoedd helaeth i ddisgyblion drafod eu hemosiynau a’u teimladau mewn amrywiol ffyrdd, sy’n cynnwys treulio cyfnodau byr mewn llecynnau tawel a chartrefol o amgylch yr ysgol, fel ‘Y Den Dawel.’ Mae cyfraniadau cyson ‘Ffrindiau’r Ysgol’ wedi galluogi’r staff i gyfoethogi’r ddarpariaeth a’r adnoddau yn yr ardaloedd hyn yn bwrpasol. Mae hyn yn cynorthwyo disgyblion yn gyson i ymdawelu cyn ailgydio’n amserol yn eu dysgu.

## Ciplun: Cefnogi medrau emosiynol a gwytnwch y disgyblion hynaf cyn pontio i'r cam dysgu nesaf

Mae gan yr ysgol berthynas weithredol ac effeithiol â'r ysgol uwchradd leol. Darperir cyfres o weithgareddau dysgu pwrpasol i'r disgyblion hynaf, sy'n cynnwys cyflwyno a datblygu ystod dda ac ystyrlon o ddulliau ymgysylltu gwerthfawr i feithrin eu dycnwch mewn achosion o bryder. Mae'r trefniadau hyn yn adeiladu hyder ac yn cefnogi ymglymiad disgyblion yn eu dysgu yn llwyddiannus. Yn ogystal, mae ymgysylltiad brwdfrydig y disgyblion yn y sesiynau yn esgor ar gydnabyddiaeth genedlaethol werthfawr iddynt ar ddiwedd y rhaglen gefnogi.

Mae'r pennaeth yn cynllunio cyfleoedd bwriadus i staff gydweithio'n agos â staff ysgolion lleol i rannu syniadau ac arbenigeddau. Maent yn cyd-gynllunio gweithgareddau dysgu ysgogol a chyffrous i ddisgyblion sy'n sicrhau dilyniant a datblygiad yn eu medrau dros gyfnod. Yn ogystal, mae staff yn ystyried awgrymiadau'r disgyblion yn bwrpasol gan gydweithio'n gynhyrchiol â nhw a'u rhieni i ddatblygu cwricwlwm sy'n ymgorffori natur gymunedol yr ysgol yn llawn. Mae hyn yn galluogi staff i ddarparu cwricwlwm cyfoethog a phrofiadau sy'n tanio dychymyg disgyblion yn llwyddiannus. Er hyn, nid yw athrawon bob amser yn herio'r disgyblion mwy abl yn ddigon cyson i'w cefnogi i wneud y cynnydd gorau ym mhob agwedd o'u dysgu.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai o aelwydydd incwm isel, yn datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau sy'n briodol i'w hoedran yn llwyddiannus ac yn eu cymhwyso'n bwrpasol ar draws y meysydd dysgu. Erbyn cyrraedd brig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio ac yn cymhwyso'u dealltwriaeth o fathemateg yn bwrpasol wrth gynllunio a phrisio taith yn drefnus o Fryngwran i barc antur ym Mharis, er enghraifft.

Mae gan athrawon gyfrifoldeb am arwain ar wahanol feysydd dysgu a phrofiad y cwricwlwm. Manteisir yn bwrpasol ar arbenigedd 'Hwylusydd Digidol' yr ysgol i werthuso effaith yr amryfal weithgareddau dysgu digidol ar gynnydd medrau'r disgyblion. Mae hyn yn ei dro yn sicrhau bod y rhan fwyaf yn datblygu medrau digidol cadarn dros gyfnod. Defnyddiant amrediad cynyddol o feddalwedd ac offer yn hyderus mewn gwahanol gyd-destunau i gefnogi eu dysgu. Mae'r disgyblion hynaf yn adeiladu ar eu medrau digidol ehangach yn gelfydd wrth gynhyrchu podlediad diddorol yn mynegi eu barn yn aeddfed am gadw anifeiliaid mewn sŵ, er enghraifft.

Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol a threfnus ar gyfer cefnogi disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae staff yn cydweithio'n gynhyrchiol â phartneriaethau allanol, gan dderbyn a gweithredu ar arweiniad a chyngor arbenigol i ddarparu rhaglenni cefnogi pwrpasol i ddisgyblion penodol a'u teuluoedd. Mae hyn yn caniatáu i ddisgyblion sydd angen cymorth neu gynhaliaeth ychwanegol wneud cynnydd cyson yn eu medrau dros gyfnod.

Mae athrawon yn defnyddio dulliau holi yn dreiddgar gan ddefnyddio amrywiaeth o gwestiynau i ddwysáu dealltwriaeth a gwybodaeth disgyblion. Mae'r cymorthyddion dysgu yn chwarae rhan annatod wrth gefnogi lles a medrau'r disgyblion. Cryfder amlwg yn y ddarpariaeth yw'r modd mae staff yn arddel iaith yn fwriadus a brwdfrydig gyda'r disgyblion. Yn ddiweddar, mae arweinwyr wedi cynllunio cyfleoedd dysgu proffesiynol buddiol i arfogi staff i wneud defnydd creadigol o ystum a symudiadau i gefnogi datblygiad ym medrau llythrennedd disgyblion. Mae hyn yn cymell disgyblion i ddatblygu medrau gwrando, siarad ac ysgrifennu cyson o oedran ifanc yn llwyddiannus.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu agweddau cadarn at ddysgu ac yn dangos diddordeb amlwg yn eu gweithgareddau dysgu. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, maent yn meithrin hyder cynyddol ac yn dangos gallu i ganolbwyntio am gyfnodau estynedig wrth ddewis tasgau mewn gwahanol ardaloedd o'r ddarpariaeth. Wrth i fedrau'r disgyblion aeddfedu, gwnânt ddefnydd medrus o ddulliau pwrpasol sy'n eu hybu i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu yn gynyddol annibynnol.

Rhoddir cyfleoedd bwriadus i ddisgyblion fyfyrio ar eu dysgu unigol yn ogystal â gwerthuso cyflawniadau eu cyfoedion. Gan amlaf, mae sylwadau athrawon yn cyfeirio at gywirdeb iaith a chystrawennu'r disgyblion. Er hyn, nid yw athrawon bob tro'n darparu adborth digon effeithiol i gefnogi disgyblion i adnabod y camau nesaf yn eu dysgu.

Cryfder nodedig yn y ddarpariaeth yw'r modd mae staff yn darparu ystod gyfoethog o brofiadau ystyrlon i ddisgyblion feithrin eu doniau mynegiannol a chreadigol. Law yn llaw â hyn, mae'r profiadau celfyddydol amrywiol a ddarperir gan staff yn llwyddo i hybu'r Gymraeg a Chymreictod ymysg disgyblion yn hynod grefftus. Mae hyn yn golygu bod disgyblion yn dwysáu eu balchder am hanes a diwylliant yr ardal leol yn gelfydd. Cynllunnir cyfleoedd gwerth chweil i ddisgyblion gydweithio ag ymarferwyr creadigol ac artistig adnabyddus i gyflwyno chwedl leol y 'Fadam Wen' trwy gyfrwng cân, gwaith celf a thrwy berfformio dawns. Mae'r cyfleoedd creadigol hyn yn cyfrannu'n werthfawr at feithrin hunanhyder disgyblion a'u doniau creadigol, gan ennyn eu chwilfrydedd at y celfyddydau mynegiannol yn llwyddiannus.

Mae gan arweinwyr drefniadau hunanwerthuso effeithiol lle caiff cryfderau’r ysgol a’i meysydd i’w gwella eu hadnabod yn fwriadus ac amserol. Mae’r llywodraethwyr yn gefnogol ac yn adnabod yr ysgol a’r gymuned mae hi’n ei gwasanaethu yn dda. Manteisia’r pennaeth ar arbenigeddau aelodau’r corff llywodraethol yn bwrpasol i gefnogi gwaith yr ysgol, er enghraifft wrth gynnal teithiau diogelu safle rheolaidd ar y cyd ag aelodau brwd y cyngor ysgol a thrwy werthuso medrau siarad Cymraeg digymell disgyblion mewn gweithgareddau dysgu ffurfiol ac anffurfiol.

Caiff agweddau ysbrydol a moesol disgyblion eu hyrwyddo’n effeithiol drwy gyfnodau myfyrio a sesiynau addoli cyson, trwy ymweliadau rheolaidd, a pherfformio cyngherddau yn yr eglwys leol. Yn ogystal, mae trafod gwerthoedd a hawliau plant yn rhan annatod o waith yr ysgol.

Mae gan arweinwyr a staff berthynas gadarn â rhieni a’r gymuned ehangach. Mae hyn yn gryfder nodedig yn y ddarpariaeth ac yn cael effaith gadarnhaol ar y disgyblion a’u teuluoedd. Maent yn croesawu rhieni i nosweithiau cwricwlaidd sy’n gyfle i athrawon rannu gwybodaeth bwysig am strategaethau darllen er mwyn hybu a chefnogi eu gallu i gefnogi medrau darllen eu plant gartref, er enghraifft. Mae’r trefniadau bwriadus hyn yn cyfrannu’n gadarn at feithrin medrau cryf a mwynhad cynhenid disgyblion wrth ddarllen wrth iddynt ddatblygu trwy’r ysgol.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli’r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 14/04/2025